

## PROBERT, WILLIAM (1790 - 1870), gweinidog gyda'r Undodiaid

**Enw:** William Probert  
**Dyddiad geni:** 1790  
**Dyddiad marw:** 1870  
**Priod:** Margaret Probert (née Carr)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Undodiaid  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Thomas Isfryn Jones

Ganwyd yn Painscastle, sir Faesyfed, 11 Awst 1790, yn fab i dyddynnwr. Yn gynnar yn ei oes bu'n bregethwr lleol gyda'r Wesleaid yn Bolton, Leeds, Lerpwl, a sir Stafford, ond yn 1815 troes at yr Undodiaid a'i sefydlu yn 1821 yn weinidog yn Walmsley ger Bolton, lle y treuliodd y 48 mlynedd nesaf o'i oes. Yr oedd yn hynafiaethydd, yn ysgolhaig mewn pynciau dwyreiniol, ac yn awdurdod ar gyfreithiau ac arferion Cymreig. Yr oedd hefyd yn feistr ar yr iaith Gymraeg, a derbyniodd amryw o fedalau oddi wrth gymdeithasau diwylliadol am ei adroddiadau ar gestyll Cymru ac am gyfieithiadau o Gymraeg i Saesneg. Cyhoeddodd amryw o lyfrau a ddengys ei wybodaeth eang, e.e. *Calvinism and Arminianism*, 1815; *The Gododin being translations from the Welsh*, 1820; *Ancient Laws of Cambria*, 1823; *Elements of Chaldee and Hebrew Grammar*, 1832; *Hebrew and English Concordance*, 1838; *Hebrew and English Lexicon Grammar*, 1850; *Laws of Hebrew Poetry*, 1860. Ysgrifennodd hefyd 'History of Walmsley Chapel,' a argraffwyd yn y *Christian Reformer*, 1834. Yn 1814 priododd Margaret Carr, Broxton, sir Gaerlleon, a ganwyd iddynt chwech o blant. Bu farw yn Dimple, Turton, 1 Ebrill 1870.

### Awdur

Thomas Isfryn Jones

### Ffynonellau

*The Unitarian Herald*, 1870

James C. Scholes, *Bolton Bibliography, and jottings of book-lore; with notes on local authors and printers* (Bolton 1886)

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [12648730](#)

Wikidata: [Q18762132](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, T. I., (1953). PROBERT, WILLIAM (1790 - 1870), gweinidog gyda'r Undodiaid. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PROB-WIL-1790>

Cyfeirnod

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government